Y LLINYN ARIAN
Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon RHAGFYR 2020

Elsi Mai, yn ein hatgoffa Dolig.

Begw Fflyr a Lleu Rhys pam da ni'n dathlu

Gair gan y Gweinidog

Cawsom ein rhybuddio ers wythnosau y byddai Nadolig eleni yn wahanol oherwydd Covid 19. Bydd llawer o'r trefniadau arferol wneir gan deuluoedd yn cael eu hepgor eleni. Trefniant Rhian a fi ers sawl blwyddyn yw treulio dydd Dolig efo Mererid, Peredur a Heddwen yn eu tro ac yna pawb yn dod i Llety'r Bugail ar y 27ain. Tro Mererid a'i theulu oedd ein cael eleni, ond bydd rhaid i deulu Cwm Idwal ddygymod heb gwmni Nain a Tadcu o amgylch y bwrdd eleni ac wrth gwrs bydd Llety'r Bugail ddim yn byrlymau ar y 27ain.

Er hyn, ffodus ydym mewn cymhariaeth â theuluoedd eraill o gael ein plant a'u teuluoedd yn byw mor agos atom. Gwyddom fod nifer gyda'u plant ymhell i ffwrdd. Teimlaf dros aelodau pob teulu sy'n arfer dod at ei gilydd neu sy'n dod adref dros yr Ŵyl, ond sydd wedi penderfynnu eleni peidio ar sail gofal a diogelwch.

Teimlaf dros y rhai, eleni fydd yn wynebu'r Nadolig cyntaf ers colli eu hanwyliaid. Mae'r Nadolig yn un o'r gwyliau anoddaf pan brofir profedigaeth, ac yn sicr ni fydd y Nadolig eleni i'r mwyfarfif yn mynd ' according to plan' fel y dywedwn. Beth bynnag a olygwn efo'r gair 'cynllun'.- yn bendant bydd yn wahanol eleni.

Pan feddyliwn am y Nadolig Cristnogol, mae'n llawn profiadau annisgwyl . Meddyliwn am gwestiwn Mair:"Sut mae'r fath beth yn bosib?" , a beth am Mair oedd yn feichiog a Joseff yn teithio o Nasareth yng Ngalilea i ddinas Dafydd , sef Bethlehem? Ganwyd Meseia Duw yn y lle mwyaf annisgwyl, mewn stabal a'i roi i orwedd yng nghafn bwyd yr anifaeiliaid. Bugeiliaid oedd y rhai cyntaf gafodd wybod am eni Iesu a'r rhai cyntaf i ymweld ag Ef ac 'roedd hynny'n annisgwyl gan mai gweheilion cymdeithas i bob pwrpas oeddent. Pan sylwed-dolodd Herod fod bygythiad i'w deyrnas, roedd yn rhaid i'r teulu ffoi. Mae'r hanes yn ferw o brofiadau newydd ac annisgwyl.

Cofiwn wrth ddathlu'r Ŵyl eleni er yr holl brofiadau annisgwyl 'rydym wedi eu profi yn ystod y flwyddyn a'r Nadolig eleni mai i fyd tebyg y penderfynnodd Duw ddod yn ei fab. Un enw ar y baban oedd 'Emanuel' sef 'Y mae Duw gyda ni" Boed i'r neges o Dduw gyda ni dros yr Ŵyl ein tywys fel y Bugeiliad i'w addoli.

HUNODD.

Bu farw **Miss Enid Lewis Jones, Celyn, Yr Hwylfan** ar 11eg o Hydref . Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Salem, dydd Gwener 30 Hydref .Yn y gwasanaeth myfyriwyd ar adnodau Hanes Claddu Iesu. Rhain oedd yr adnodau yn llyfr defosiwn dyddiol "Gair y Dydd" ar gyfer dyddiad gwasanaeth angladdol Enid. Roedd Enid yn un o'r rhai oedd yn derbyn y llyfryn . Yn yr hanes, roedd geiriau y gellir eu cysylltu â Enid sef Arweinydd, Prynu, Rhoi a Merched. Gyda 'Arweinydd' cyfeiriad at Joseph o Arimatheia oedd yn gwasanaetha - meddyliwn am wasanaeth Enid fel blaenor ac ysgrifennydd yn Engedi a diacon yn Salem. Gyda 'Prynu a Rhoi ' cawn ein tywys i faes arian gyda Joseph eto'n gofalu am Iesu wedi'r croeshoelio . Bu gofalu a chyfrannu'n bwysig i Enid a dyledus yw Salem ac elusennau eraill fel Ffrindiau Ysbyty Eryri am ei gofal. Gyda 'Merched' cyfeiriad sydd yma at y rhai ddilynnodd Iesu a'u poen o'i weld yn dioddef yw'r hanes a gweld yr hyn ddigwyddodd iddo adeg y Croeshoeiliad. Profodd Enid sawl profedigaeth yn ei bywyd ac fel y Merched, bu ffydd yn Iesu yn gyfrwng nerth a chynhaliaeth cadarn iddi. Cydymdeimlwn â Huw a'r merched Mari, Rhiannon a Sian .

Bu farw **Mr Elwyn Philips, Karina, Bron y Garth** , dydd Sul y 6 ed o Rhagfyr , ail Sul yn nhymor yr Adfent. Yr enw ar yr ail gannwyll Adfent yw Heddwch a Thangefedd. Cyfoethogir bywyd gan bersonnau sydd nid yn unig yn caru heddwch a thangefedd ond sy'n eu ddangos yn eu bywydau. Un felly oedd Elwyn; person tawel, tangefeddus . Anodd meddwl amdano'n codi ei lais. Roedd bod yn ei gwmni yn brofiad i'w drysori. Ein Harglwydd Iesu Grist ddywedodd : Gwyn ei byd y tangeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw'. Cynhelir y gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm, Bangor bore Mercher 16 Rhagfyr. Cydymdeimlwn â Maureen ei briod a'r teulu.

"Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi." *3*

COLLI PERTHYNAS

Mr John Penri Williams, Garthenog, Rhydyfawnog, ym marwolaeth ei frawd Selwyn a chefnder i Rhys Prytherch.
Mrs Grace Dawson,, 5 Tre Eilian ym marwolaeth ei chefnither.

YN YR YSBYTY.

Mr Ronald Williams, 35 Llys yr Eifl,
Mr Aron Davies, (40 Y Glyn) Talsarn -Ysbyty Gwynedd

CYFNOD YN YR YSBYTY.

Mr William J. Williams, Brig yr Allt , Cae Gwyn,
Mr Alun Roberts, Melangell, Lon Ysgubor , Cae Gwyn
Mr Arthur Wilding, Bryn Dyfi, Pen y Garth
Mr Richard Meirion Roberts, Rhydgaled, 37, Stryd Marcws
Mrs Hilda Roberts, Tonnau Gwynion, Ffordd Bangor
Un o fabanod y capel Lleu Rhys, T ŷ Capel Salem.

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Gwynfa, Bontnewydd: Mrs Beryl Jones ,
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref a'r rhai sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar neu ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Carolau
Ar ZOOM . Nos SUL 13 RHAGFYR . 5pm

Rhif y cyfarfod : 8132678 8343.
Cyfrinair : nadolig.
I Ymuno dros y ffôn :
Deialu : 0203 4815237.
Rhif y cyfarfod : 813 2678 8323# Cod y Cyfarfod 2625226#

'Roedd yn fwriad gan Gyngor Eglwysi Caernarfon gynnal OEDFA CAROLAU 'DRIVE IN" Dydd SUL 20 Rhagfyr am 2 o'r gloch ym Maes Parcio dan Morrisons. Gan fod canllawiau Senedd Cymru erbyn hyn yn llymach ni chynhelir yr oedfa. 4

CYFRANIADAU ARIANNOL.

Diolch am y gofal ddangoswyd yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau fod cyfraniadau at Achos Salem yn parhau i gyrraedd ein trysorydd . Gwerthfawrogwn yn ddiffuant yr ymdrech a ddangoswyd gennych.

Gellir cyfrannu at y capel drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod: **Côd y Banc i'w dalu 40-16-02 Rhif y cyfrif i'w dalu- 70724556.**

Cofiwch roi enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch neu cewch anfon siec i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon, LL55 1LE yn dyladwy i :
CAPEL SALEM CAERNARFON os gwelwch yn dda.

Dalier sylw ;

***bod llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola'r flwyddyn 27Rhagfyr 2020**

* am yr anogaeth i gyfrannu trwy gyfrwng debyd uniongyrchol.

* am y gwahoddiad i bob aelod geisio ychwanegu 10% at eu cyfraniad blynddol.

*am yr ymgyrch i ddenu cyfamodwyr newydd. Drwy Gyfamodi (Gift Aid) cawn 25c am bob £1, ar yr amod eich bod yn talu Treth Incwm. Gwneir hyn drwy arwyddo ffurflen berthnasol

GAIR Y DYDD

Deunydd defosiwn dyddiol a gaiff ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn (fesul tri mis) yw Gair y Dydd. Cyhoeddir gan Bwyllgor Darlleniadau Beiblaidd ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Diolch i Veira Owen am fod yn gyfrifol i'w ddosbarthu . Os dymunwch archebu copi rhowch wybod i Veira ar y cyfle cyntaf. gwelwch yn dda Cost unigol yw £3 (tri nis) neu £10.00 y flwyddyn i'w dalu ymlaen llaw i drysorydd y capel.

"Cod, a chymer y plenty a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft, ac aros yno hyd nes y dywedaf wrthyt, oherwydd y mae Herod yn mynd i chwilio am y plentyn er mwyn ei ladd" Math 2

5

Apel Nadolig Cymorth Cristnogol

Mae apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2020 yn canolbwyntio ar Ethiopia ac yn adrodd stori Kawite (sydd yn y llun) sydd a'i bywyd wedi ei drawsnewid trwy adeiladu pwll dŵr yn ymyl ei phentref. Mae Kawite yn codi gyda'r wawr i nôl dŵr ar gyfer ei theulu o bwll y gymuned. .Cyn y pwll, roedd Kawite a'i merched yn teithio hyd at bum awr y dydd i nôl dŵr, a byddai ei phlant yn aml yn colli ysgol neu'n mynd heb fwyd.Wrth i faich y sychder hir fynd yn anniodde-fol,gweithiodd Cymorth Cristnogol a'n partner lleol BRACED gyda chymuned Kawite, gan gefnogi'r pentref i greu eu pwll eu hunain sy'n nawr yn rhoi dŵr iddynt.Mae'r pwll cymunedol yn arbed oriau i Kawitea gall dreulio amser adref gyda'i theulu, ac mae cefnogaeth BRACED wedi ei grymuso i roi bwyd ar y bwrdd ac adeiladu dyfodol gwell i'w chymuned,Mae gobaith wedi dychwelyd i'w chymuned fel ffynnon yn yr anialwch.

Ymatebwn i Apel Nadolig C.C yn flynyddol drwy gynnal **CINIO BARA A CHAWS BORE SUL cyn dydd Dolig. Ni fydd yn bosib gwneud hyn eleni ond gellir cyfrannu fel arfer drwy ddanfon siec i drysorydd yr Ysgol Sul, Mr Alun Roberts, Melangell, Cae Gwyn, Caernarfon neu'n syth i gyfrif yr ysgol Sul . Manylion : Côd y Banc i'w dalu : 40 16 02 Rhif y cyfrif i'w dalu 41069446 .**
Gwnewch y siec yn daladwy i Ysgol Sul Salem, Nodwch rhif aelodaeth a rhowch y geiriau Cymorth Cristnogol.

CLYCHAU'N CANU ! (Cytundeb newydd ar Wahardd Arfau Niwcliar)

Mae CND Cymru, Cymdeithas y Cymod a'r Ymgyrch Ryngwladol dros Ddiarfogi Niwcliar (ICAN) yn trefnu digwyddiadau i ddathlu'r ffaith bod y Cytundeb newydd ar Wahardd Arfau Niwcliar yn dod i rym ar **Ionawr 22**. Y gobaith ydi cael eglwysi a chapeli i ganu clychau ar draws y wlad am 12 o'r gloch y diwrnod hwnnw – ac annog arweinwyr eglwysi i arwyddo'r datganiad o gefnogaeth i'r Gytundeb.

CYMDEITHAS Y BEIBL

Gofynnir gan Gymdeithas y Beibl i'r eglwysi neulltio un Sul o'r flwyddyn i feddwl am waith y Gymdeithas . Er mae Sul olaf Hydref yw'r dyddiad a nodir fel Sul y Beibl, nid oes gorfodaeth ar unrhyw eglwys i gadw at y dyddiad. Yr hyn sy'n bwysig yw defnyddio oedfa neu Sul cyfan i feddwl am waith y Gymdeithas . Yn Salem ers sawl blwyddyn rhoddir sylw i waith y Gymdeithas ar ail Sul Adfent . Dyna wnaed Sul diwethaf gan ddefnyddio'r deunydd a baratowyd gan y Gymdeithas. Os dymunwch weld yr holl ddeunydd ewch i Safwe Cymdeithas y Beibl. Fel arfer gwneir casgliad yn ystod Suliau mis Rhagfyr at y Gymdeithas ond eleni yn anffodus ni ellir gwneud hyn. Derbynnir cyfranniadau eleni trwy siec neu'n syth i gyfrif capel Salem trwy law trysorydd yr eglwys;Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion ,Caernarfon .**Manylion y Cyfrif :**
CÔD BANC I'W DALU 40 16 02
RHIF Y CYFRIF 70724556 . Gwnewch y siec yn dyladwy i Capel Salem, Caernarfon . Cofiwch roi rhif aelodaeth a nodi : Cyfraniad Cymdeithas y Beibl.

AGOR Y LLYFR

Yn yr oedfa Sul Rhagfyr 6ed, cawsom gyfle i ddysgu mwy a diolch am waith Cymdeithas y Beibl ar draws y byd. Un agwedd pwysig o waith y Gymdeithas yma yng Nghymru ydy prosiect Agor y Llyfr sy'n cysylltu eglwysi efo ysgolion lleol er mwyn cyflwyno'r Beibl i blant drwy ddrama a ffyrdd creadigol.
Mae Cyngor Eglwysi Caernarfon wedi bod yn cyd-lynu criw Agor y Llyfr ers tair mlynnedd bellach. Mae'r criw yn cynnwys aelodau o Salem, Seilo, Caersalem a Noddfa a cyn cyfnod y feirws 'roeddent yn dod at ei gilydd bob pythefnos i greu, ymarfer ac ymweld ac ysgolion yn ystod tymor ysgol.

Yn Mis Mawrth daeth gweithgaredd Agor y Llyfr i ben fel y mwyafrif o weithgareddau eraill. Ond ar ôl yr Haf, roedd pawb yn awyddus i geisio meddwl am ffyrdd creadigol o gysylltu efo'r ysgolion unwaith eto.

(Parhad tudalen nesaf …….)

AGOR Y LLYFR ……..(Parhad)

A dyna sut ddechreuodd y ffilmio! Y penderfyniad oedd creu 4 fideo byr ar gyfer yr Adfent/Nadolig a'u hanfon i'r ysgolion i ddangos i'r plant. Mae'r fideos yn gyfuniad o actio, adrodd stori, sioe bypedau a canu–ond mae'r fideos i gyd yn cynnwys elfennau pwysig gwasanaeth Agor y Llyfr o gyflwyno stori Feiblaidd, munud i feddwl a gweddi.

Mae'r criw wedi bod yn hynod greadigol – ac wedi llwyddo i ffilmio a recordio eu hunain. Mae angen diolch yn arbennig i Llinos Mai Morris; Gweithiwr Plant a Ieuenctid Eglwys Noddfa am ddod a'r holl glipiau fideo at ei gilydd a'u golygu i greu 4 fideo i'w hanfon i'r ysgolion. Mae'r ysgolion yn werthfawrogol iawn o'r adnodd ac mae'n wych gwybod ein bod wedi gallu rhannu stori a neges y Nadolig efo holl blant oed cynradd y dref eleni.

Manylion cysylltu dros y ffôn ar gyfer y Paned a mins pei :

Ffonio 0203 4815237 RHIF Y CYFARFOD : 835 6606 6164#
Cod y cyfarfod 126 6500#

"

2021
Sul 3 Ionawr: Gwasanaeth Zoom/Ffon am 10 o'r gloch y bore.
Nos Fercher : 6 Ionawr : Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn dros Zoom am 6.30
Sul 10 Ionawr : Gwasanaeth yng Nghapel Salem am 10 ac ar Zoom/ffon
Sul 17:Ionawr : Gwasnaeth Zoom/Ffon : **Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol**
Mercher : 20 Ionawr am 10 : Cyfarfod Gweddi dros Zoom .
Sul 24 : Gwasanaeth yng Nghapel Salem am 10 ac ar Zoom/Ffôn.
Sul 31 : Ionawr : Gwasanaeth Zoom/FFôn